



UMPA
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
22^{ain} Tachwedd 2019
Ystafell I

Yn bresennol

Dhan Rhamnatsing (DR)	- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Tomos Ifan (TI)	- Swyddog Diwylliant Cymreig UMPA, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Chloe Wilkinson-Silk (CWS)	- Swyddog Materion Academaidd UMPA ac Ymddiriedolwr
Wojciech Salski (WS)	- Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Lydia Chilvers (LC)	- Swyddog Llesiant UMPA ac Ymddiriedolwr
Olympia Petrou (OP)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Debra Croft (DC)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Ryan Beasley (RB)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA a Dirprwy Gadeirydd
Alice Raven (AR)	- Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
Dan Steward (DS)	- Ymddiriedolwr Ôl-raddedigion UMPA

Alan Roberts (AR) drwy Skype - Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Hefyd yn bresennol

Trish McGrath (TM)	- Prif Weithredwr UMPA
Annmarie Evans (AE)	- Rheolwr Pobl a Llesiant UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Peter Curran.

2. Datganiadau o Fuddiannau

Doedd dim datganiadau o fuddiannau.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 22^{ain} Mai 2019.

4. Materion sy'n Codi / Taflen Weithredu

Ni chodwyd unrhyw faterion.

STRATEGAETH

5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Rhoddodd CWS drosolwg o'r cyfrifon Rheolaeth hyd at Hydref 2019 gan adrodd ar y meysydd lle'r oedd gorwario a thanwario. Gofynnodd AR i'r swyddogion feddwl am eu hymgyrchoedd, i siarad â myfyrwyr er mwyn meddwl am y ffordd orau o wario cyllideb yr ymgyrch.

Parhaus

Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod dyrannu grantiau ac effeithiolrwydd y system. Mae angen i swyddogion siarad â myfyrwyr a chanfod beth yw'r rhwystrau.

Parhaus - Swyddogion

Mae datganiad llif arian i'w ychwanegu at y cyfrifon i wneud y Bwrdd yn ymwybodol o'r Arian sydd wrth gefn.

Nodwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr / Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rhoddodd TM drosolwg o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Y meysydd a drafodwyd oedd Staffio, Chwarae Teg, Cyllid ac Adnoddau, Glasfyrwyr, Cyfleoedd, Hyfforddiant Pwyllgorau, Her Aber, BUCS, Cynrychiolwyr Academaidd, Gwirfoddoli, Etholiadau, Democratiaeth, Ymgyrchoedd a Recriwtio.

Nodwyd

7. Adroddiad y Swyddogion

Nododd y Bwrdd Flaenoriaethau'r Swyddogion hyd yma a diolchodd iddynt am eu gwaith caled.

Nodwyd

8. Ymarferoldeb Ailddatblygu Adeiladu

Cafwyd trafodaeth hir gan y Bwrdd i ystyried datblygiad arfaethedig gofod Undeb y Myfyrwyr. Y cwestiynau allweddol i'r Bwrdd oedd:

- i. A ddylai'r UM ildio'r Rhandy i Ganolfan y Celfyddydau?
Na ddylai
- ii. A ddylai'r UM ildio'r Brif Ystafell fel lolfa / bar?
Dylai, os yw'n golygu ein bod yn cadw'r Rhandy ac yn cadw'n hunaniaeth gyda rheolaeth benodol dros y dyluniad.
- iii. A ddylai'r Gwasanaethau Masnachol gael eu rhedeg gan y Brifysgol?
Dylent, ond yn glir o ran hunaniaeth.
- iv. Ydyn ni'n hapus i adael y swyddfeydd cefn fel mae nhw?
Gwnewch y lle'n fwy; os yw torri drwy waliau yn sicrhau bod gennym le ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.
- v. A ddylid symud drysau blaen yr UM?
Dim teimladau cryf y naill ffordd na'r llall
- vi. Pa ffactorau eraill yr hoffech chi roi blaenoriaeth iddyn nhw yn nhrefnadaethau'r UM ar hyn?
Rhaid i'r siop barhau, ond yn hapus i'r Brifysgol ei rhedeg. Rhaid i hunaniaeth yr UM fod yn glir. O bosib cynnal rhai ymweliadau ag UMau eraill sydd wedi cynnal datblygiadau a gwahodd rhai o staff y Brifysgol draw.

Gweithredu - Trish/Cyfredol

9. Cynllunio Strategol

Rhoddodd TM drosolwg o'r cynnig i'n Cynllun Strategol fod yn Adolygiad Blynnyddol. Ystyriodd y Bwrdd y cynnig a chytuno â'r dull cynllunio, fodd bynnag dim ond ystyried y cynllun 3 i 5 mlynedd yn gyffredinol.

Gweithredu - Trish/Cyfredol

10. Canlyniadau'r ACF

Rhoddodd TM esboniad byr o Ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrywyr, a bydd yn diweddarau'r Bwrdd gyda dadansoddiad llawn o'r adroddiad.

Gweithredu - TM

11. Is-ddeddfau Clybiau / Cymdeithasau

Esboniodd TM fod y ddogfen hon wedi'i diweddarau gan nad oedd cyfeiriad at grwpiau myfyrywyr o'r blaen, a gofynnodd i'r Bwrdd gymeradwyo hyn.

Cytunwyd

12. Senedd

Diweddarodd DR y Bwrdd ar bolisiau a basiwyd yn y Senedd a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch tryloywder y Brifysgol o ran buddsoddiadau. Roedd y Bwrdd yn ddigon bodlon â'r berthynas rhwng y Brifysgol a'r UM.

Nodwyd

13. Amcanion Prif Swyddog Gweithredol

Diweddarodd RB y Bwrdd ar amcanion y Prif Weithredwr, ond cyfeiriodd yn benodol at ddatblygiad y Prif Weithredwr. Anogodd y Bwrdd TM i feddwl am faes y byddai am gael ei ddatblygu ynddo, gan y byddai'r arian sydd dros ben yn fwy na digon i dalu am hynny, a byddai'r Bwrdd yn fwy na pharod i'w ystyried.

Nodwyd

14. Unrhyw fusnes arall

Hysbysodd TM y Bwrdd ynghylch damwain bws-mini a bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf. Hysbyswyd y Bwrdd hefyd am wrthdystiad sydd i'w gynnal gan yn y Cyngor gan Extinction Rebellion.

Nodwyd

15. Dyddiad y cyfarfod nesaf

15^{fed} Ionawr 2020